# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 12 Mai 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(264)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Nodi'r Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop – gweithio gyda a chefnogi ein cymuned Lluoedd Arfog heddiw (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Llysgenhadon Cyllid yr UE – Gohirwyd tan 19 Mai**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) (60 munud)**

**6 Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015 (15 munud)**
**NDM5754 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7 Dadl Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu (60 munud)**
**NDM5753 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu, fframwaith tan 2020 ar gyfer GIG Cymru i wella gwasanaethau clefyd yr afu.

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu i'w weld yn:

http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y gallai'r broses o gyflwyno cynllun cyflenwi clefyd yr iau gael ei llesteirio gan yr heriau ariannol y mae byrddau iechyd lleol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r toriadau cyllidebol mwyaf erioed gan Lywodraeth Cymru.

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi prisiau uned sylfaenol ar gyfer alcohol ar waith cyn gynted ag y bo modd.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 13 Mai 2015